

# RHANBARTH CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU – ADOLYGIAD GWASANAETHAU ACIWT

## ARGYMHELLION Y BWRDD PROSIECT

### 1.0 CEFNDIR

Cyflwynodd *Cynllun Oes* (2005) y fframwaith strategol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o 2005 i 2015, gan ddynodi mai'r prif heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru yw:

- sicrhau gwasanaeth diogel, drwy ddelio gyda gwasanaethau arbenigol wedi'u rhannu ymysg gormod o Ymddiriedolaethau/ysbytai
- denu a chadw gweithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf
- ymateb i alw cynyddol ar wasanaethau sy'n bygwth llethu'r gwasanaethau presennol gan y galw
- osgoi sefyllfa lle bydd ein hadnoddau ar wasgar

Mae *Cynllun Oes* hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer dylunio system gofal iechyd sydd â'i ffocws ar dair egwyddor sylfaenol

- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr
- Sicrhau'r gorau o'r adnoddau
- Targedu gwella perfformiad parhaus.

Fel canlyniad, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y gofyniad i bob un o'r tri Rhanbarth yng Nghymru gynnal adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd aciwt. Cafodd y rhesymau dros hyn eu hamlinellu ymhellach ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y cyhoeddiad "Adeiladu Gwasanaethau Diogel a Chynaliadwy ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru: yr Achos dros Newid" (2005).

Cafodd cynigion ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau ysbyty aciwt wedyn eu datblygu a'u cyflwyno yn y ddogfen ymgynghori "***Cynllunio i Gyflenwi: Pennu Ffurf ein Hysybysai Aciwrt yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru***" a bu pob Bwrdd Iechyd Lleol yn trafod goblygiadau y newidiadau arfaethedig â'i gymuned. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben yn ffurfiol ar 26 Mehefin 2006 a derbyniwyd sylwadau hyd 28 Gorffennaf, fel y cytunwyd gan y Gweinidog. Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi ac mae'r Bwrdd Prosiect wedi rhoi ystyriaeth wrthrychol i'r trosolwg rhanbarthol, yn unol â'r cwestiynau ymgynghori, i gynhyrchu cyfres o argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd pob BILI wrth ochr ei adborth lleol.

Bu'r broses ymgynghori ei hunan yn broses gadarnhaol a chynhyrchiol tu hwnt o ymrwymiad gyda'r cyhoedd ynghylch dyfodol gwasanaethau iechyd yng

Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Bu trafodaeth onest a bywiog o fewn a rhwng cymunedau a ysgogodd lawer o gonsensws am yr angen am newid.

Mae gan aelodau'r Tîm Prosiect a'r Bwrdd Prosiect gyfrifoldebau unigol a thorfol i:

- ✓ Sicrhau fod y gwasanaethau iechyd cyfredol a dyfodol o fewn y Rhanbarth yn effeithlon yn glinigol, yn ddiogel, o safon uchel ac yn gynaliadwy yn wyneb heriau gweithlu a safonau clinigol y dyfodol
- ✓ Sicrhau y medrir cyflenwi gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- ✓ Rhoi ystyriaeth i farn y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill wrth ddatblygu modelau'r dyfodol yn unol â'r uchod.

Mae'n glir o'r broses ymgynghori nad oedd llawer o bobl a fynychodd y cyfarfodydd cyhoeddus yn derbyn y dadleuon a gyflwynwyd parthed cynaliadwyedd a diogelwch clinigol y patrwm presennol o wasanaethau aciwt mewn rhannau o'r Rhanbarth. Er yn cydnabod y pryderon a fynegwyd parthed cyfluniad gwasanaethau yn y dyfodol, mae'r Bwrdd Prosiect yn ystyried fod yn rhaid cydnabod a mynd i'r afael â materion real iawn cynaliadwyedd clinigol ac ariannol, yn neilltuol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Felly bydd trafodaethau yn parhau gyda'r cyhoedd a chlinigwyr dros y 12 mis nesaf i ddatblygu datrysiadau adeiladol i'r heriau sydd o'n blaen yn unol â'r derbyniad cyffredinol fod "gwneud dim" yn annerbyniol oherwydd y risg o fethiant gwasanaeth.

## **2.0 ARGYMHELLION**

Amlinellodd y Ddogfen Ymgynghori 3 grŵp o gwestiynau ymgynghoriad fel sy'n dilyn:

- a) Egwyddorion cyffredinol ar gyfer newid
- b) Cynigion penodol ar gyfer cymunedau unigol
- c) Ystyriaeth o faterion penodol parthed strwythurau trefniadol

Wrth ddatblygu argymhellion rhoddodd y Bwrdd Prosiect ystyriaeth i

- Ymateb y cyhoedd
- Yr ymateb gan gyrrff statudol
- Yr ymateb gan gyrrff rhanbarthol a'r rhai sy'n ymwneud ag ardaloedd mwy nag un Bwrdd Iechyd Lleol

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi cywain yr ymatebion a gawsant yn dilyn y cyfnod ymgynghori i roi trosolwg ar gyfer pob un o'r cynigion. Cafodd yr ymatebion gan bob Bwrdd Iechyd Lleol wedyn eu crynhoi.

Yn ychwanegol, cafodd ymatebion gan gyrrff rhanbarthol, cyrrff statudol a'r rhai sy'n cyfeirio at ardal mwy nag un BILI lleoll hefyd eu crynhoi.

Wrth ddatblygu ei argymhellion, mae'r Bwrdd Prosiect hefyd wedi ystyried perthynas y cynigion ymgynghori gyda chynlluniau cenedlaethol a gofynion polisi eraill, yn benodol

- Amcan Cynllun Oes i greu gwasanaethau iechyd o'r radd flaenaf yng Nghymru erbyn 2015.
- Y Cynlluniau Cyflenwi Lleol a gytunwyd gan gymunedau iechyd yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru gydag Uned Cefnogaeth Cyflenwi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni targedau amserau aros allweddol.
- Y cynigion a nodir yn y Ddogfen Ymgynghori gyfredol 'Delivering Emergency Care – An integrated approach to Unscheduled Care in Wales'.
- Amcanion y Rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd sy'n anelu i foderneiddio cyflenwi gwasanaeth iechyd drwy hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio drwy well mynediad i wybodaeth a hysbysrwydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- Y cynigion ar gyfer gwasanaethau ysbyty sylweddol ar gyfer gogledd Cymru a fanylir yn "Cynlluniwyd ar gyfer Gogledd Cymru."
- Yr amcanion ar gyfer De Ddwyrain Cymru a gyflwynir yn "Ail-lunio eich Gwasanaethau Iechyd Lleol - Datblygu Cynllun ar gyfer De Ddwyrain Cymru.
- Y sylwadau ar ailgyflunio a nodir yn "Cynllun Cydymffurfio", Adroddiad Gwerthuso Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gydymffurfiaeth ar gyfer meddygon iau gyda'r Gyfarwyddeb Amser Gweithio Ewropeaidd.
- Y gofyniad i sefydliadau GIG asesu polisiâu ac arferion yn unol â gofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) (2000) a'r arfer da i asesu effaith hefyd yng nghyswllt rhyw, anabledd, rhywioldeb, oedran, crefydd ac iaith. Gofynnwyd i Ganolfan GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am gyngor yng nghyswllt amseriad a phroses yr asesiadau effaith hyn a'r farn yw y dylai'r gofyniad hwn yn awr gael ei ateb yn lleol.

Mae'r Bwrdd Prosiect yn hyderus fod yr argymhellion dilynol yn gyson ag amcanion y cynlluniau cyfochrog allweddol uchod, a chyfeiriad cyffredinol Cynllun Oes. Cydnabyddir y bydd gofyniad am gyllid cyfalaf dros amserlen sylweddol i gefnogi gweithredu'r argymhellion ac y câi hyn ei drafod drwy'r prosesau cynllunio cyfalaf arferol. Cymeradwyir yr asesiad a'r argymhellion dilynol i'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yn Rhanbarth Gorllewin a Chanolbarth Cymru.

## 2.1 Cwestiynau Ymgynghori Cyffredinol

<u>Cwestiwn Ymgynghori</u>	<u>Trosolwg o'r Ymatebion</u>	<u>Argymhelliad y Bwrdd Prosiect</u>
<p>1. Datblygir gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned i gyflenwi mwy a mwy o wasanaethau yn lleol a thu allan i'r lleoliad ysbyty traddodiadol</p>	<p>Mae'r cyhoedd a staff y GIG yn cefnogi'r egwyddor hon yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen pennu union fanylion sut y cyflawnir hyn a'u rhannu'n eang gyda'r cyhoedd fel y bydd hyder fod yr amgennau i ofal ysbyty ar gael cyn neu ar yr un pryd ac y caiff y gwasanaethau ysbyty ei hailffurfio.</p>	<p>Dylid cefnogi'r egwyddor allweddol hon.</p>
<p>2. Wrth gefnogi'r uchod, mae angen i ni ailffurfio ac ailgynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau y gellir eu cyflenwi'n unig mewn ysbytai</p>	<p>Megis uchod</p>	<p>Dylid cefnogi'r egwyddor allweddol hon.</p>
<p>3. Datblygir 3 Uned Cyflenwi Gwasanaeth ac 1 Uned Cyflenwi Gwasanaeth rhwydweithiol (Powys) ar gyfer Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n caniatáu i ni fwyhau'r defnydd o sgiliau arbenigol ac arbenigedd i'r holl gleifion</p>	<p>Caiff egwyddorion rhwydweithio a rhannu adnoddau a sgiliau i sicrhau'r budd mwyaf posibl eu cefnogi'n gyffredinol.</p> <p>Codwyd rhai cwestiynau am hyfywedd cyn ardal Dyfed fel cymuned iechyd weithredol o gofio am ei daearyddiaeth a dosbarthiad poblogaeth, megis y sylfaen poblogaeth 300,000, er na chynigwyd unrhyw fodel rhwydweithio amgen.</p>	<p>Dylid cefnogi'r egwyddor allweddol hon.</p>
<p>4. Ailgynllunnir gwasanaethau o gwmpas y llwybr claf, felly tra gallai fod yn angenrheidiol teithio am wasanaethau arbenigwr neu wasanaethau tra arbenigol byddwn yn defnyddio'r gorau o dechnoleg fodern i alluogi cydrannau sylweddol o ofal i gael eu cyflenwi'n lleol.</p>	<p>Mae cydnabyddiaeth gyffredinol fod cleifion yn gorfod teithio ac y bydd angen iddynt yn y dyfodol i deithio i ganolfannau arbenigol i gael gofal arbenigol iawn. Rhoddir croeso cyffredinol i ddefnydd technoleg, lle'n briodol, i ostwng yr angen i deithio.</p> <p>Derbyniwyd nifer sylweddol o sylwadau yn nodi y dylai mwy o wasanaethau a mwy o wasanaethau arbenigol fod ar gael yn lleol.</p>	<p>Dylid cefnogi'r egwyddor allweddol hon.</p>

## 2.2 Cynigion penodol ar gyfer cymunedau unigol

<u>Cwestiwn Ymgynghoriad</u>	<u>Trosolwg o'r Ymatebion</u>	<u>Argymhelliad y Bwrdd Prosiect</u>
<p><b>5. Ar gyfer Powys,</b> lle bo'n briodol yn glinigol, caiff mwy o wasanaethau aciwt eu cyflenwi'n lleol, mewn partneriaeth â rhwydwaith o ddarparwyr aciwt, drwy ddatblygu canolfannau asesiadau a thriniaethau wedi'u lleoli'n sirol (fel y manylir yn Gwneud Mwy, Gwneud yn Well).</p>	<p>Caiff cysyniad Uned Cyflenwi Gwasanaeth rhwydweithiol ar gyfer Powys ei gefnogi'n fras. Mae trigolion Powys yn awyddus i gadw a chryfhau'r berthynas bresennol gyda Darparwyr aciwt yn unol â chymunedau naturiol a llif cleifion. Cefnogir y cysyniad o gyflenwi mwy o asesiad a thriniaeth yn y sir gyda nifer a lleoliad y Canolfannau Asesu a Thriniaeth arfaethedig yn y sir yn cael eu trafod o fewn ymgynghoriad ar wahân.</p>	<p>Dylid cefnogi'r egwyddor o Uned Cyflenwi Gwasanaeth rwydweithiol gyda mwy o ddarpariaeth gwasanaethu ac asesu yn y sir.</p> <p>Mae angen penderfynu ar union natur a lleoliad y gwasanaethau drwy'r ymgynghoriad cyfochrog <b>"Gwneud Mwy, Gwneud yn Well".</b></p>
<p><b>6. Ar gyfer Bro Morgannwg,</b> bydd Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell Nedd Porth Talbot yn parhau i weithio fel un ysbyty aciwt ar draws 2 safle a datblygir Ysbyty Castell Nedd Port Talbot ymhellach fel canolfan ddynodedig ar gyfer triniaethau dewisol yn cefnogi cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe ynghyd â'r boblogaeth leol.</p>	<p>Cefnogir cysyniad Uned Cyflenwi Gwasanaeth Bro Morgannwg ar y ddealltwriaeth y gall y llif cleifion naturiol o ran orllewinol yr ardal i Abertawe barhau fel sy'n briodol.</p> <p>Cefnogir datblygiad pellach Ysbyty Castell Nedd Port Talbot fel canolfan ddewisol ddynodedig.</p>	<p>Dylid cefnogi'r polisi hwn.</p>
<p><b>7. Ar gyfer Abertawe,</b> darperir gwasanaethau ysbyty aciwt o safle ysbyty integredig sengl a gefnogir gan wasanaethau sylfaenol cryfach a gwasanaethau yn y gymuned yn cyflenwi gwasanaethau cleifion allanol, diagnostig, mân anafiadau a thriniaethau llai difrifol yn nes at y cymunedau yn Abertawe ac o gwmpas.</p>	<p>Cefnogir y cynnig ar gyfer safle ysbyty aciwt sengl ar gyfer Abertawe yn gyffredinol. Fel rhan o ddatblygiad yr achos busnes, mae disgwyliad y bydd trafodaeth gyhoeddus eang yng nghyswllt lleoliad y cyfleuster newydd hwn a rhoddir ystyriaeth lawn i fater hygyrchedd o bob rhan o'r rhanbarth.</p> <p>Mae'r ymateb cyhoeddus hefyd wedi nodi fod gofyniad am lawer mwy o fanylion am y gwasanaethau cymunedol a fydd yn eu lle i gefnogi'r ysbyty aciwt integredig newydd arfaethedig ynghyd â lleoliad a swyddogaeth Ysbytai Cymunedol a Chanolfannau Adnodd.</p>	<p>Dylid cefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Dylai strwythur prosiect newid clinigol gynnwys cynrychiolaeth CIC/cyhoeddus a thrafod sbectrwm cyfan darpariaeth gofal yn y prosesau cynllunio yn gysylltiedig â'r datblygiad ysbyty newydd. Cafodd yr egwyddor hon eisoes ei mabwysiadu gan gymuned Abertawe fel rhan o Raglen "Ail-lunio Gwasanaethau Iechyd yn Abertawe</p>

<p><b>8. Ar gyfer Dyfed</b>, bydd Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli, yn cadw ei swyddogaeth allweddol fel canolfan ar gyfer asesiadau meddygol brys a thriniaethau ar gyfer y boblogaeth leol ac fe'i datblygir ymhellach fel canolfan ddynodedig triniaethau dewisol gan gefnogi Dyfed ynghyd ag Abertawe.</p> <p>Ar sail y ffaith mai'r gofyniad i wasanaethau fod yn rhwydweithiol i ddarparu gwasanaeth gwirioneddol sengl ar draws aml safleoedd yn Nyfed yw'r ffordd orau ymlaen, mae 2 opsiwn i'w hystyried yn nhermau cyflenwi'r ansawdd orau a mynediad i holl drigion Dyfed.:</p> <p>(a) Disodli Ysbyty Llwyn Helyg ac Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru gyda chyfleuster ysbyty sengl integredig newydd, hanner ffordd rhwng y ddau safle ysbyty sy'n bodoli eisoes i'w rwydweithio gydag Ysbyty Bronglais ac yn cael ei gefnogi gan wasanaethau cynhwysfawr gofal sylfaenol a gwasanaethau gofal sylfaenol yn y gymuned fel y disgrifir uchod</p> <p>(b) Datblygu Cyffredinol Gorllewin Cymru fel y prif ysbyty aciwt i Ddyfed yn cael ei gefnogi gan Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Llwyn Helyg ac angen i'r ddau ysbyty weithredu ar sail gwasanaeth mwy cyfyngedig.</p>	<p>Mae'r drafodaeth o fewn Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi ysgogi ymrwymiad y cyhoedd. Ar y cyfan, ni dderbyniwyd y dadleuon a gyflwynwyd yn yr Achos dros Newid, yn arbennig y rhai yng nghyswllt cynaliadwyedd clinigol. Yr adborth llethol o gyfarfodydd cyhoeddus yw y dylid gwella gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig gyda mwy o wasanaethau arbenigol yn cael eu datganoli ar gyfer cyflenwi lleol, yn groes i'r dadleuon a gyflwynwyd gan y gwasanaeth. Dywedwyd fod amserau teithio a seilwaith ffyrdd yn rhwstr i unrhyw newidiadau yn nhrefn y gwasanaeth cyfredol a chanolbwyntiodd llawer o'r drafodaeth ar wasanaethau Mamolaeth, Iechyd Plant, Damwain ac Argyfwng ac Ambiwylans.</p> <p>Caiff cysyniad rhwydweithio'r gwasanaethau ei dderbyn yn fras ond gyda'r dymuniad i gadw'r holl wasanaethau presennol ar yr holl safleoedd presennol. Fodd bynnag, pan fo ymatebwyr wedi dweud fod angen peth newid, yn absenoldeb manyleb llawer cliriach o wasanaethau o fewn model cyflenwi'r dyfodol, ni theimlent y medrent ddatblygu barn wybodus o'r cyfluniad gorau ar gyfer y gwasanaethau.</p> <p>Ar fanylion y ddau opsiwn a gynigiwyd ar gyfer y cyfluniad ysbytai aciwt, bu'r ymatebion fel a ddilyn:</p> <p><b>Ceredigion</b> - yn y ddau opsiwn, ystyriwyd fod bod yn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth cysylltiedig yn golygu ymdeimlad o israddio. Gofynnwyd am sicrwydd pellach am union ffurf y gwasanaethau Mamolaeth a Phediatreg i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Nid oedd unrhyw arwydd clir o ffafriaeth ar gyfer un ai Opsiwn Un neu Opsiwn Dau a chyflwynwyd cynnig arall.</p> <p><b>Sir Gaerfyrddin</b> - ffafrid yr ail opsiwn lle daw Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru y prif safle YCD o fewn y rhwydwaith. Roedd peth consyrn ynghylch y cynigion ar gyfer Ysbyty Tywysog Phillip ar y sail y dylai gadw o leiaf yr un gwasanaethau â YCD cysylltiedig.</p> <p><b>Sir Benfro</b> - Mynegwyd gwrthwynebiad cryf yng nghyswllt y ddau opsiwn a gyflwynwyd ar gyfer cyn ardal Dyfed. Cyflwynwyd model arall ar gyfer y tair sir a fyddai'n cadw ac yn ddichonol wella'r portffolio presennol o wasanaethau.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Prosiect yn ystyried fod angen cwblhau gwaith ychwanegol cyn y medrir gwneud penderfyniad diffiniol ar gyfluniad gwasanaethau ysbyty aciwt ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Esboniad clir o'r model gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol a ddatblygir ar draws y tair sir, i fod yn ategol i'r gwasanaethau aciwt a chyflenwi llwybrau diwriad o ofal i gleifion. Bydd hyn yn cynnwys esboniad o rôl a chyfluniad Canolfannau Adnoddau Gofal Sylfaenol ac ysbytai cymunedol er mwyn cyflwyno trosolwg systemau-cyfan.</li> <li>✓ Mae angen mapio effaith cynigion moderneiddio Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ar draws y rhanbarth i ateb y cwestiynau rhesymol iawn a godwyd am driniaeth yn y gymuned yn erbyn trosglwyddo i ysbytai. Mae angen integreiddio hyn gydag adolygiad manylach o ofynion seilwaith trafniadaeth eraill.</li> <li>✓ Bydd angen adeiladu ar waith adolygiadau arbenigol presennol ar sail gwasanaeth unigol i ddatblygu modelau gwasanaeth manwl sy'n adlewyrchu angen lleol. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaethau Mamolaeth ac Iechyd Plant ar draws y tair sir a bydd angen iddynt adlewyrchu materion traws-ffiniol.</li> <li>✓ Cysyniad pellach o'r ysgogwyr ar gyfer ailgyfluniad gwasanaethau iechyd system gyfan o fewn gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru.</li> </ul> <p>Argymhellir felly nad yw'r BIL yn cytuno gydag unrhyw un o'r opsiynau ar gyfer ailgyfluniad ysbytai aciwt yn y Tair Sir (Dyfed) ar hyn o bryd. Fodd bynnag ni ddylai hyn lesteirio esblygiad darpariaeth gwasanaeth o fewn fframwaith o gynllunio a chomisiynu lleol.</p>
--	---	---

## 2.3 Ystyriaeth o faterion penodol parthed strwythurau trefniadol

<u>Cwestiwn Ymgynghori</u>	<u>Trosolwg o'r Ymatebion</u>	<u>Argymhellion y Bwrdd Prosiect</u>
<p>9. Bydd BILI Pen-y-bont ar Ogwr a BILI Castell Nedd Port Talbot yn datblygu trefniadau ar y cyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd.</p>	<p>Ni wnaed unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn ac mae'r sefydliadau iechyd yr effeithir armynt yn cefnogi'r cynnig sydd â'r nod o gryfhau'r swyddogaeth comisiynu.</p>	<p>Dylid hysbysu Llywodraeth y Cynulliad fod cefnogaeth leol o fewn y gymuned ar gyfer trefniadau ar y cyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd a bod angen rhoi ystyriaeth i hyn mewn unrhyw gynigion ar gyfer newid gweithredol neu drefniadol y gall y Cynulliad fod am eu hystyried.</p> <p>Bydd angen datblygu hyn yn unol â'r arweiniad comisiynu diwygiedig a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddarach eleni.</p>
<p>10. Bydd BILI Sir Gaerfyrddin, BILI Ceredigion a BILI Sir Benfro yn datblygu trefniadau ar y cyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd.</p>	<p>Ymateb cymysg fu i'r mater hwn o fewn yr ymgynghoriad. Mae'r tri BILI eisoes yn gweithio'n fwy agos gyda'i gilydd gan gydnabod manteision arbedion maint, cronni arbenigedd a nerth comisiynu. Mae sylwadau eraill wedi cyfeirio at anfanteision tybiedig "colli annibyniaeth".</p>	<p>Dylid hysbysu Llywodraeth y Cynulliad fod cefnogaeth, ar y cyfan, ar gyfer un trefniant ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd ar draws y 3 sefydliad presennol cyn belled ag y medrid cynnal cyd-weithio sirol gydag awdurdodau lleol. Bydd angen datblygu hyn yn unol â'r arweiniad comisiynu diwygiedig a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddarach eleni.</p>
<p>11. Datblygir Ymddiriedolaeth sengl ar gyfer Dyfed gyda gwasanaeth llawn ac integreiddio sefydliadol i gyflenwi'r manteision pennaf i ofal claf. Ceisir eich barn ar y canlynol:</p> <p>(a) A ddylai'r sefydliad sengl hwn gael ei greu <b>CYN</b> i'r gwasanaethau gael eu hintegreiddio?</p> <p>(b) A ddylai'r sefydliad sengl hwn gael ei greu <b>YR UN PRYD</b> ag y mae gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio?</p>	<p>Mae'r 3 Ymddiriedolaeth yn gyffredinol gefnogol cyn belled â bod cyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth integredig/Bwrdd Ymddiriedolaeth yn cynrychioli'r 3 cymuned bresennol yn ddigonol. Cafodd gwerth integreiddio yn nhermau gostwng biwrocratiaeth, costau rheolaeth a rhwystrau i gydweithio eu cydnabod yn fras Fodd bynnag mynegwyd pryderon hefyd y medrai Bronglais a Llwynhelig gael eu hymylu.</p> <p>Caiff yr integreiddiad arfaethedig hefyd ei gefnogi gan y Pwyllgor Meddygol Rhanbarthol.</p>	<p>Dylid hysbysu Llywodraeth y Cynulliad y dylai'r Ymddiriedolaethau a BILI ystyried fod buddion gweithredol, ariannol a datblygu gwasanaeth strategol o integreiddio Ymddiriedolaethau i gyflawni strwythur Ymddiriedolaeth GIG sengl fel cyfrwng i hyrwyddo'r rhwydweithiau clinigol rheoledig ffurfiol sydd eu hangen i foderneiddio'r gwasanaethau clinigol. Mae angen i unrhyw newid trefniadol, fel galluogydd allweddol ar gyfer y datblygu gwasanaeth sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd, fod yn ei le cyn gynted ag sy'n bosibl.</p>

### **3.0 CRYNODEB O ARGYMHELLION**

#### **3.1 Materion rhanbarthol**

- ✓ Dylai'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori gael eu defnyddio fel sylfaen i'r holl gynllunio gwasanaeth iechyd o fewn y Rhanbarth ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.
- ✓ Caiff goblygiadau cynllun Moderneiddio'r Gwasanaeth Ambiwylans eu hintegreiddio gyda gwaith pellach ar y cynigion ar gyfer ailgyflunio gwasanaethau aciwt i esbonio'n glir yr effaith ar drosglwyddo cleifion. Ategir hyn gan ddadansoddiad manylach o ofynion cludiant a seilwaith eraill i gefnogi modelau newydd o ofal.

#### **3.2 Cymuned Bro Morgannwg**

- ✓ Cymeradwyir datblygu Uned Cyflenwi Gwasanaeth Bro Morgannwg.
- ✓ Cytunir ar ddatblygu trefniadau comisiynu gofal eilaidd ar y cyd, gan adeiladu ar y trefniadau colegol a fu ar waith ers 2004.

Ar gyfer y gymuned hon, gall yr Ymddiriedolaeth a'r Byrddau Iechyd Lleol fynd rhagddynt yn ddi-oed i weithredu'r model a gytunwyd.

#### **3.3 Cymuned Abertawe**

- ✓ Cymeradwyir model Uned Cyflenwi Gwasanaeth Abertawe
- ✓ Cymeradwyir yr opsiwn safle sengl ar gyfer Abertawe

Dylid mynd rhagddi â phoses y Prosiect ar gyfer datblygu ysbyty aciwt sengl i Abertawe mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol gan gydnabod yn llawn y materion hygyrchedd i gymunedau ehangach a wasanaethir ledled y Rhanbarth.

#### **3.4 Cymuned Powys**

- ✓ Cymeradwyir y model Uned Cyflenwi Gwasanaeth rhwydweithiol ar gyfer Powys

### 3.5 Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro

- ✓ Cymeradwyir datblygu Uned Cyflenwi Gwasanaeth sengl ar gyfer y tair sir
- ✓ Dylid datblygu cynigion manwl ar gyfer sefydlu Ymddiriedolaeth integredig ar gyfer y tair sir (Dyfed) cyn gynted ag y bo modd
- ✓ Dylid gweithredu'r prosesau comisiynu integredig ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori yn ddi-oed ac yn gysylltiedig â'r cynigion sy'n datblygu ar gyfer Comisiynu Rhanbarthol fel sy'n briodol
- ✓ Mae angen datganiad clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru parthed amseriad a phroses ystyriaeth sefydlu Ymddiriedolaeth sengl ar draws y tair sir.

### 3.6 Argymhellion Pellach

Os cefnogir yr argymhellion dilynol gan Fyrddau Iechyd Lleol a bod y Cynghorau Iechyd Cymunedol yn cytuno arnynt, caiff yr ymgynghoriad ei gwblhau yng nghyswllt pob mater heblaw'r cyfluniad gwasanaeth manwl ar gyfer sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Gall cymunedau Powys, Bro Morgannwg ac Abertawe wedyn fynd ymlaen gyda datblygiadau pellach yn lleol yn unol gyda chanlyniad yr ymgynghoriad.

Fodd bynnag, ni fedrir penderfynu ar y cyfluniad gwasanaethau ysbyty aciwt a ffafir ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro nes bod mwy o fanylion ar y seilwaith cefnogi a roddir ar waith a mwy o fanylion ar amrediad ac ansawdd mynediad lleol i wasanaethau. Argymhellir felly bod Byrddau Iechyd Lleol hefyd yn cefnogi'r argymhellion dilynol:

- ✓ Bydd angen doddi proses amgen ar waith i ddatrys y materion sydd ar ôl yng ngorllewin y Rhanbarth. O fewn telerau'r arweiniad ymgynghoriad (WHC (2004) 84) yn absenoldeb cytundeb ar ganlyniad rhwng y GIG a'r CIC, mae darpariaeth ar gyfer cyfnod o waith pellach i ddynodi datrysiaid sy'n dderbyniol i bob parti. Er bod y Cylchlythyr yn dynodi amserlenni a awgrymir ar gyfer y gwaith pellach hwn, nid yw hyn yn rhagnodol a medrir felly ei benderfynu'n lleol.

Cynigir felly fod Fforwm Cynllunio yn cael ei sefydlu i fynd â'r gwaith ychwanegol hwn yn ei flaen a dylai gynnwys cynrychiolaeth o:

- Y tair Ymddiriedolaeth bresennol neu'r Ymddiriedolaeth integredig (os y'i cymeradwyir) – cynrychiolaeth glinigol a rheolaethol
- Byrddau Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro (yn cynnwys cynrychiolaeth Gofal Sylfaenol)
- Ffederasiwn Cynghorau Iechyd Cymunedol Dyfed

- Cynrychiolwyr cleifion
  - Swyddfa Ranbarthol
  - Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro
  - Pwyllgorau Ymgynghorol Meddygol a Nyrsio Rhanbarthol
  - Sefydliadau ochr staff
  - Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru
  - Aelodau eraill a gyfetholwyd fel sy'n briodol (i gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Powys; Cynghorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn, De Meirionnydd a Brycheiniog & Sir Faesyfed, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, Darparwyr Addysgol; ac arbenigwyr clinigol o'r tu mewn a'r tu allan i'r Rhanbarth).
- ✓ Bydd angen sefydlu cysylltiadau ffurfiol rhwng y Fforwm Cynllunio hwn a Bwrdd Rhaglen "Ail-lunio Gwasanaethau Cyhoeddus yn Abertawe" i sicrhau fod cynllunio cydlynol ar gyfer gwasanaethau a chapasiti ar draws y Rhanbarth.
  - ✓ Bydd angen i'r Fforwm Cynllunio gysylltu gyda'r rhwydweithiau clinigol presennol, i fynd ymlaen â'r adolygiadau arbenigedd. Gan gyfeirio'n benodol at Wasanaethau Mamolaeth ac Iechyd Plant, y dasg fydd datblygu model manwl ar gyfer cyflenwi gwasanaeth pediatrig a mamolaeth integredig ar gyfer y tair sir (Dyfed) sy'n mynd i'r afael â materion hyfywedd clinigol (yn cynnwys gweithlu) ac ariannol.
  - ✓ Bydd y Fforwm Cynllunio yn mynd â'r gwaith pellach ymlaen fel bo angen fel sail i gadarnhau ailgyfluniad gwasanaeth ac ysbyty ar gyfer y tair sir.

Caiff y Fforwm Cynllunio'r dasg o ddynodi modelau gwasanaeth sy'n ateb y gofynion a osodir yn yr Achos dros Newid. Os na all y Fforwm Cynllunio ddod i safbwynt consensws, ni fydd gofyniad am ystyriaeth ffurfiol bellach o'r opsiynau ymgynghori gwreiddiol. Bydd y gwaith a wnaed gan y Tîm Prosiect (ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall) ar gael i'r Fforwm Cynllunio i gynorthwyo gyda'i weithgareddau.

Mae dau ganlyniad posibl i waith y Fforwm Cynllunio fel sy'n dilyn:

**(a) Cytundeb ar ailgyfluniad a ffafrir ar gyfer gwasanaethau aciwt**

Os, fel canlyniad i'r gwaith manylach hwn, bod y Byrddau Iechyd Lleol a'r Cynghorau Iechyd Cymuned ar draws y tair sir yn dod i gonsensws ar yr ailgyfluniad a ffafrir ar gyfer gwasanaethau aciwt ar draws y tair sir, ni fydd angen unrhyw ymgynghori pellach. Y sefyllfa ffurfiol yw y byddai'r canlyniad a gytunwyd yn cael ei roi'n ôl i Fyrddau'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer penderfyniad ffurfiol dan fantell y fframwaith ymgynghori presennol. Ar pwynt hwnnw y caiff yr ymgynghoriad ar y cwestiwn ymgynghoriad sydd ar ôl ei gau'n ffurfiol a bydd y cymunedau yn symud i weithredu.

Fodd bynnag, os yw'r naill barti neu'r llall yn teimlo fod gwerth mewn ymgynghori ymhellach yn uniongyrchol gyda'r cyhoedd, byddai hyn ar wedd ymgynghoriad ategol a gynhelid ar draws ardal y tri Bwrdd Iechyd Lleol. Byddai angen cyd-gytuno ar fanylion y broses i'w dilyn a'r amserlen ymgynghori gyda'r hyblygrwydd yn gysylltiedig gyda'r Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC) perthnasol.

Byddai angen i unrhyw ymgynghoriad pellach gael ei seilio ar y ffactorau gwreiddiol sy'n sbarduno newid, egwyddorion cynllunio a gytunwyd ac unrhyw gynigion newydd a ddatblygir yn cyfeirio'n benodol at gyflenwi gwasanaethau aciwt sy'n ateb y meini prawf newid strategol gwreiddiol. Byddai angen cynnal unrhyw ymgynghoriad ategol ar sail golegol ar gyfer budd strategol cyffredinol holl boblogaeth y tair sir.

**(b) Dim cyfluniad a gytunwyd wedi'i ddynodi**

Os na all y Fforwm Cynllunio ddynodi ffordd a gytunir ymlaen, byddai'r broses ar gyfer penderfynu wedyn yn mynd yn ôl i'r WHC gyda'r tri Bwrdd Iechyd Lleol yn gorfod gwneud penderfyniad ffurfiol ar opsiwn a ffafrir a'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn cadw'r hawl i atgyfeirio'n ffurfiol i'r Swyddfa Ranbarthol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am benderfyniad.

Yn y cyfamser, bydd yr integreiddiad trefniadol a gwasanaeth yn gweithredu i hybu'r agenda gwella gwasanaeth a rhoi sicrwydd i'r holl ran-ddeiliaid am gysyniad y fframwaith gwasanaeth-sengl i gyflenwi gwasanaethau clinigol gynaliadwy.

Moderneiddio gwasanaeth fydd yr egwyddor allweddol sy'n sylfaen i'r broses o gyflenwi gwasanaethau iechyd o'r radd flaenaf i Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

**4.0 CASGLIAD**

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cymeradwyo'r argymhellion hyn i'r Byrddau Iechyd Lleol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.